# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Committee Room 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Mawrth 2024

Amser: 09.45 - 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

# Hybrid - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

## 4 Sesiwn dystiolaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(10:30-12:00) (Tudalennau 1 - 16)

Swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Dyfed Edwards - Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Carol Shillabeer - Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-04-24-P5-Papur Tystiolaeth BIPBC

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG
----------------------------------
Block 5, Carlton Court, St Asaph Business Park, St Asaph, LL17 0JG

Cadeirydd,
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus,
Senedd Cymru,
Caerdydd
Caerdydd.
CF99 1SN

**Ein cyf / Our ref:** CS/DE(CE24/0320)
☎: [redacted]
**Gofynnwch am / Ask for:** [redacted]
**E-bost / Email:** [redacted]
**Dyddiad / Date:** 1af Mawrth 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynychu sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

Yn dilyn ein trafodaethau gyda Chlerc y Pwyllgor, gweler ynghlwm bapur tystiolaeth atodol cyn i ni fynychu'r Pwyllgor ar 7 Mawrth 2024. Mae'r papur wedi'i lunio o amgylch y tri maes a amlinellwyd yn eich gwahoddiad fel meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Gobeithiwn y bydd hyn yn hwyluso trafodaeth ac y bydd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor bod BIPBC eisiau bod mor agored a thryloyw ag y gall fod ar bob mater, wrth hefyd ddiogelu ein dyletswyddau fel cyflogwr.

Edrychwn ymlaen at gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Mawrth.

Cofion cynnes,

**Dyfed Edwards**
**Cadeirydd/Chair**

Cofion cynnes,

**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr/Chief Executive**

**Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr / Correspondence address for Chairman and Chief Executive:**
Swyddfa'r Gweithredwyr / Executives' Office
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, Gwynedd LL57 2PW
**Gwefan:** www.pbc.cymru.nhs.uk **/ Web:** www.bcu.wales.nhs.uk



Mae Swyddfa'r Prif Weithredwr yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a bydd yn sicrhau y darperir ymateb yn Gymraeg heb oedi.
The Chief Executive's Office welcomes correspondence through the medium of Welsh and will ensure that a response is provided in Welsh without incurring a delay

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – 7 Mawrth 2024**

# Diweddariad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## 1) Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y tri maes y gofynnwyd amdanynt mewn gohebiaeth gan y Pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2023:

| |
|---|
| Cynnydd ar gyfnod sefydlogi naw mis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n rhedeg hyd at fis Chwefror 2024, a chynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol. |
| Materion yn ymwneud â'r prosesau sy'n gysylltiedig â chomisiynu'r adroddiad EY a arweiniodd at gost uwch i'r Bwrdd nag oedd angen. |
| Gwaith dilynol ar faterion sy'n codi o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sydd ar ddod ar Effeithiolrwydd Bwrdd BIPBC, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ddechrau 2024. |

## 2) Cynnydd ar gyfnod sefydlogi naw mis BIPBC sy'n rhedeg hyd at fis Chwefror 2024, a chynnydd yn erbyn DPA

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai BIPBC yn cael ei roi o dan Fesurau Arbennig, o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth y GIG (2014). Roedd y sefydliad wedi bod ar lefel uwchgyfeirio Ymyrraeth Wedi'i Dargedu o'r blaen. Nododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y datganiad a oedd yn cyhoeddi'r uwchgyfeiriad i Fesurau Arbennig bryder penodol ynghylch arweinyddiaeth, diwylliant a pherfformiad, er bod wyth maes o bryder i gyd, gan gynnwys:

1) Llywodraethu ac effeithiolrwydd bwrdd
2) Gweithlu a datblygiad sefydliadol
3) Llywodraethu a rheolaeth ariannol
4) Arweinyddiaeth a diwylliant tosturiol
5) Llywodraethu clinigol, profiad a diogelwch cleifion
6) Cyflenwi gweithredol
7) Cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau
8) Iechyd meddwl

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'n ddefnyddiol amlinellu lle mae cynnydd wedi'i wneud o ran sefydlogi'r bwrdd iechyd a'r camau nesaf ar gyfer y gwaith pellach sydd i ddod.

## Dull o sefydlogi'r Bwrdd Iechyd

Profodd y bwrdd iechyd ansefydlogrwydd sylweddol o ran arweinyddiaeth o ganlyniad i'r camweithrediad a adroddwyd (Adroddiad Effeithiolrwydd Bwrdd Archwilio Cymru - Chwefror 2023) a'r newidiadau sylweddol dilynol i aelodaeth y Bwrdd ym mis Chwefror 2023. Mae'r lefel hon o newid sylweddol wedi bod yn ddigynsail mewn byrddau iechyd ers eu sefydlu yn 2009. Dechreuodd penodiad uniongyrchol, gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cadeirydd dros dro a thri Aelod Annibynnol y broses o adeiladu Bwrdd newydd**.**

Sicrhaodd y Bwrdd Brif Weithredwr dros dro gyda phrofiad GIG Cymru, a pharatowyd Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig ar gyfer y Bwrdd a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2023. Roedd y Cynllun Ymateb yn canolbwyntio ar 5 canlyniad a dilynodd ddull sefydlogi cyflym o dri chylch 90 diwrnod yn olynol rhwng 1 Mehefin 2023 a diwedd Chwefror 2024. Cynlluniwyd y 5 canlyniad nid yn unig i ymateb i'r rhestr o faterion allweddol sy'n peri pryder ond hefyd i ddechrau adeiladu sefydliad mwy effeithiol sy'n gallu adeiladu'r sylfeini ar gyfer newid hirdymor. Roedd y rhain yn cynnwys:

Canlyniad 1 – Bwrdd sy'n gweithredu'n dda
Canlyniad 2 – Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24
Canlyniad 3 – Arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach
Canlyniad 4 – Gwella mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion
Canlyniad 5 – Sefydliad sy'n dysgu ac yn hunanwella

Mae adroddiadau rheolaidd wedi'u cyflwyno i'w hystyried gan y Bwrdd ac wedi'u cyhoeddi i alluogi dull agored a thryloyw o ddangos cynnydd. Bwriedir cyhoeddi adroddiad sylweddol yn manylu ar y cynnydd ar draws y tri chylch sefydlogi ddiwedd mis Mawrth 2024.

## Cael Mewnwelediadau a defnyddio Cyngor a Chymorth Annibynnol

Comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres o Adolygiadau Annibynnol i gynorthwyo'r Bwrdd newydd i gael mewnwelediad cyflym i feysydd allweddol o fewn y bwrdd iechyd. Mae'r Adolygiadau wedi'u cynnal dros y naw mis diwethaf ac wedi cael eu hystyried yn systematig drwy Bwyllgorau'r Bwrdd a'u cyhoeddi wedyn ynghyd â chynllun ymateb ar wefan y bwrdd iechyd - Adolygiadau annibynnol a'n hymatebion - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru). Mae'r adolygiadau a'u statws wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol:

| | Adolygiad Annibynnol | Statws |
|---|---|---|
| 1 | Diogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl | Adroddiad wedi'i dderbyn, ymateb rheolwyr wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo drwy Bwyllgor Bwrdd perthnasol, adroddiad ac ymateb rheolwyr wedi'u cyhoeddi drwy lywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Camau ar y gweill. |
| 2 | Diogelwch Cleifion | Adroddiad wedi'i dderbyn, ymateb rheolwyr wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo drwy Bwyllgor Bwrdd perthnasol, adroddiad ac ymateb rheolwyr wedi'u cyhoeddi drwy lywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Camau ar y gweill. |
| 3 | Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd | Adroddiad wedi'i dderbyn, ymateb rheolwyr wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo drwy Bwyllgor Bwrdd perthnasol, adroddiad ac ymateb rheolwyr wedi'u cyhoeddi drwy lywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Camau ar y gweill. |
| 4 | Defnyddio a recriwtio Staff 'Dros Dro' | Adroddiad wedi'i dderbyn, ymateb rheolwyr wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo drwy Bwyllgor Bwrdd perthnasol, adroddiad ac ymateb rheolwyr wedi'u cyhoeddi drwy lywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Camau ar y gweill. |
| 5 | Adolygu Portffolio Gweithredol | Adroddiad wedi'i dderbyn a'i adolygu ac mae'r CEO yn arwain ar gamau gweithredu sydd ar y gweill. |
| 6 | Rheoli contractau a chaffael (a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd yn hytrach na Llywodraeth Cymru) | Adroddiad wedi'i dderbyn a bydd yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor perthnasol yn fuan ac yna'n cael ei gyhoeddi drwy lywodraethu'r Bwrdd. |
| 7 | Gwasanaethau Fasgwlaidd | Mae dwy ran - y cyntaf wedi dod i law a sesiwn datblygu Pwyllgor wedi'i gynnal ac mae wedi llywio'r cynllun gwella'r Gwasanaethau Fasgwlaidd. Mae'r ail yn dod i ben ar hyn o bryd a bydd y ddau yn mynd trwy Bwyllgorau ffurfiol a Bwrdd gyda'i gilydd ac yna'n cael ei gyhoeddi drwy lywodraethu'r Bwrdd. |
| 8 | Cynllunio | Derbyniwyd yr Adroddiad Drafft; yn aros am adroddiad terfynol. Cynllunio camau gweithredu ar y gweill. |
| 9 | Adolygiad cloriannu o gynnydd yn erbyn Adolygiadau Iechyd Meddwl blaenorol | Derbyniwyd adroddiad drafft; yn aros am adroddiad terfynol. Cynllunio camau gweithredu ar y gweill. |

| | | |
|---|---|---|
| 10 | Systemau Llywodraethu Clinigol | Bwrdd Crwn gyda Llywodraeth Cymru i lunio dull o ymdrin â gwaith ymyrryd a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023. Ers hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda thîm o Lywodraeth Cymru dan arweiniad Cathy Dowling i fwrw ymlaen â gwaith darganfod ar System Rheoli Ansawdd gyda'r bwriad o gyflwyno cynnig drafft i'r Bwrdd ym mis Mai. |

Sicrhaodd Llywodraeth Cymru hefyd nifer o Gynghorwyr Annibynnol fel rhan o fecanweithiau Ymyrraeth a Chymorth yn y meysydd canlynol:

- Cyllid
- Arweinyddiaeth glinigol a diogelwch cleifion
- Arweinyddiaeth ac effeithiolrwydd y Bwrdd;
- Iechyd meddwl
- Ymgysylltu â dinasyddion, cleifion a gofalwyr.

Darparwyd cymorth pellach drwy Weithrediaeth y GIG mewn meysydd gan gynnwys gofal sylfaenol, gofal brys ac argyfwng, ac iechyd meddwl.

O ran atebolrwydd i Lywodraeth Cymru, dyma'r mecanweithiau craidd:

1. Fforwm Gwella Mesurau Arbennig: cyfarfod rheolaidd wedi'i gadeirio gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r Bwrdd i adolygu cynnydd, heriau a thrafod y ffactorau allweddol sy'n galluogi llwyddiant.
2. Cyfarfod adolygu Iechyd Meddwl chwarterol; dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles i adolygu cynnydd penodol, heriau a materion allweddol yn ymwneud ag iechyd meddwl ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
3. Bwrdd Sicrwydd Mesurau Arbennig; cyfarfod rheolaidd wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol i adolygu cynnydd a thrafod heriau, materion a disgwyliadau.
4. Cyfarfod misol un i un rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod cynnydd yn erbyn amcanion.

Mae nifer o themâu allweddol wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i ddadansoddi'r adroddiadau mewnwelediad unigol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad
- Diwylliant
- Rheoli Risg
- Cynnwys Cleifion, Teulu a Gofalwyr
- Model Gweithredu
- Llywodraethu sefydliadol a chydymffurfiaeth
- Cynllunio Integredig

Mae gwaith penodol felly ar y gweill mewn perthynas â datblygu gallu'r sefydliadau yn y meysydd hyn a ffurfio elfennau craidd o Gynllun Datblygu Sefydliadol y byrddau iechyd.

### Cynnydd

Mae'n bwysig pwysleisio bod y naw mis cyntaf (3 cylch 90 diwrnod) wedi canolbwyntio ar sefydlogi, a bod llawer o waith o'n blaenau i alluogi gofal iechyd gwirioneddol gynaliadwy, o ansawdd uchel yng Ngogledd Cymru, wedi'i gefnogi a'i ddarparu gan fwrdd iechyd effeithiol iawn. Darperir yr adroddiad lefel uchel canlynol ar bob canlyniad:

**Canlyniad 1: Bwrdd sy'n gweithredu'n dda**

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddatblygu diwylliant, strategaeth a rheoli perfformiad. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r meysydd ffocws allweddol a sut cyflawnir y cynnydd. Mae Adolygiad Dilynol o Effeithiolrwydd Bwrdd Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024, flwyddyn ar ôl yr adroddiad gwreiddiol ym mis Chwefror 2023, yn arwydd allweddol o gynnydd.

| Canlyniad | Cynnydd |
|---|---|
| **1) Bwrdd sy'n gweithredu'n dda** | • Recriwtiwyd Cadeirydd, Is-Gadeirydd a phedwar Aelod Annibynnol parhaol, penodeion parhaol pellach i'w cyhoeddi yn dilyn proses benodi Gyhoeddus.<br>• Penodi Prif Weithredwr parhaol, profiadol, gyda phrofiad yn GIG Cymru.<br>• Mae Rhaglen Datblygu Bwrdd wedi'i datblygu ac yn cael ei gweithredu, gan gynnwys meysydd ffocws megis:<br>    • Arweinyddiaeth dosturiol<br>    • Iechyd meddwl<br>    • Cynllunio<br>    • Rheoli Perfformiad<br>    • Rheoli risg<br>    • Digidol<br>    • Ansawdd<br>    • Cynllunio Gwydnwch dros y Gaeaf<br>    • Fframwaith Rheoli Risg newydd wedi'i gytuno yn y Bwrdd ym mis Medi, gyda'r gwaith gweithredu ar y gweill yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio.<br>    • Mae'r adolygiadau annibynnol a dderbyniwyd hyd yma wedi cael eu hystyried mewn Sesiynau Datblygu Pwyllgorau'r Bwrdd, cyn i Ymatebion Rheolwyr gael eu datblygu. Mae'r rhain wedi'u hamlygu yn yr adroddiadau Mesurau Arbennig rheolaidd i'r Bwrdd llawn.<br>    • Cynnydd da wedi'i wneud o fewn trefniadau llywodraethu corfforaethol gan gynnwys strwythurau Pwyllgorau'r Bwrdd a chylch busnes, gyda phenodiad yn cael ei wneud i rôl ddiwygiedig y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. |

**Canlyniad 2: Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24**

Mae’r gofynion yn y canlyniad hwn yn ceisio gwella gallu’r sefydliad i ddatblygu gallu ym maes cynllunio, gan gydnabod nad yw’r bwrdd iechyd wedi gallu datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig y gellir ei gymeradwyo ers sefydlu’r gofyniad. At hynny, mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar wella llywodraethu a pherfformiad ariannol.

| Canlyniad | Cynnydd |
|---|---|
| **2) Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24** | • Cynllun Blynyddol wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2023. Mae hyn yn darparu'r llwyfan ar gyfer symud tuag at ddull cynllun 3 blynedd ar gyfer 2024/27.<br>• Datblygwyd Fframwaith Cynllunio Integredig newydd, cymeradwywyd gan y Bwrdd a dechreuwyd ei weithredu.<br>• Fframwaith Perfformiad Integredig wedi'i ddatblygu, wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi, a'i dechreuwyd ei weithredu.<br>• Mae adroddiad drafft yr Adolygiad Cynllunio Annibynnol wedi'i dderbyn. Mae disgwyl yr adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Chwefror.<br>• Mae'r Adolygiad o Reoli Contractau a Chaffael wedi'i dderbyn, a disgwylir trafodaeth ac ystyriaeth o ymateb y rheolwyr yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Bwrdd sydd wedi'i amserlennu.<br>• Cynllun Gweithredu Rheolaeth Ariannol yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r holl Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, y Cynllun Neilltuo a Dirprwyo (SORDs) a'r Rheolau Sefydlog (SOs) wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol y Bwrdd.<br>• Hyfforddiant caffael wedi'i roi i dros 400 o staff PBC.<br>• Gwell perfformiad ariannol yn amlwg yn ystod y cyfnod. |

**Canlyniad 3: Arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach**

Mae'r canlyniad hwn yn canolbwyntio ar wella sefydlogrwydd arweinyddiaeth yn y sefydliad yn ogystal â galluogi ymgysylltu ac ymwneud mwy effeithiol â staff yn fewnol a rhanddeiliaid a chymunedau yn allanol.

| Canlyniad | Cynnydd |
|---|---|
| **3) Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad Cryfach** | • Cymeradwyodd y Bwrdd (Medi 2023) ei Fwriad Strategol mewn perthynas â datblygu Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu, gan gytuno ar 9 maes ffocws cychwynnol.<br>• Mae Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol newydd wedi'i sefydlu i arwain y gwaith, dan gadeiryddiaeth y CEO, ac mae Pwyllgor Pobl a Diwylliant (Bwrdd) newydd wedi'i ffurfio, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Bwrdd Iechyd.<br>• Datblygu arweinyddiaeth dryloyw, gref a gweladwy yn benodol ar faterion allweddol, e.e. y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chyfweliadau â'r cyfryngau.<br>• Mae ymagwedd newydd at y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyhoeddus wedi'i datblygu a'i rhoi ar waith, gan gynnwys Ffair Iechyd a gynhelir yn y ganolfan gymunedol leol, gan alluogi sgyrsiau rhwng y bwrdd iechyd a chymunedau lleol.<br>• Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu cymunedol yn ystod chwarter 4 2023/24, gan brofi a mireinio'r dull ar gyfer digwyddiadau pellach ar draws y rhanbarth yn ystod 2024.<br>• Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig newydd yn ei gamau datblygu olaf i'w roi ar waith o fis Mawrth 2024 ymlaen.<br>• Adroddiad drafft 'Gwrando ar Gleifion, Teuluoedd a Chymunedau' wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Annibynnol gyda chanfyddiadau ac argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Dull ymgysylltu newydd wedi'i fabwysiadu gyda'r rhai yr effeithir arnynt gan faterion gwasanaeth fasgwlaidd.<br>• Adolygiad Cyflym o Ymgysylltiad Clinigol wedi'i gwblhau, wedi'i ystyried gan y Tîm Gweithredol a'r Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol cyn ei ystyried gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.<br>• Mae cyfres o Gynadleddau Arweinyddiaeth yn cael eu gweithredu. Yn dilyn sesiwn Bwrdd diwrnod cyfan ar Arweinyddiaeth Dosturiol, mae cynhadledd bwrdd iechyd cyfan wedi'i chynnal yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a diwylliant tosturiol, gyda sesiynau gan yr arbenigwyr Michael West a Henry Engelhardt.<br>• Mae gostyngiad sylweddol yn y defnydd o staff asiantaeth dros dro - o 41 ym mis Rhagfyr 2022 i 2 erbyn diwedd Chwefror 2023. |

**Canlyniad 4: Gwella mynediad, canlyniadau a phrofiadau**

Y canlyniad hwn yw'r maes sy'n fwyaf tebygol o effeithio ar gleifion a chleientiaid yn fwyaf uniongyrchol, ac nid yw'n annhebyg i sefydliadau GIG eraill lle mae pwysau sylweddol ar wasanaethau. Fodd bynnag, mae materion penodol yn ymwneud â gwasanaethau Gogledd Cymru y mae angen gweithredu arnynt yn y tymor byr a'r tymor hwy.

| Canlyniad | Cynnydd |
|---|---|
| 4) Gwella mynediad, canlyniadau a phrofiadau i ddinasyddion | • Gofal wedi'i Gynllunio: Mae Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio newydd wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â gwelliannau systematig. Mae'r rhain yn cynnwys symleiddio a safoni'r dull o drefnu apwyntiadau ac amserlennu, gweithredu canfyddiadau ac argymhellion GIRFT (Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf) ar draws sawl maes gwasanaeth clinigol, a rhoi datblygiadau ar waith fel 'Sylw i Symptomau', 'Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf' a 'Hyrwyddo, Atal a Pharatoi' (3Ps yn Saesneg) yn cynorthwyo pobl sy'n aros am eu hymyrraeth gofal wedi'i gynllunio.<br>• Mae model gwasanaeth newydd ar gyfer gwasanaeth Orthopaedeg nifer uchel-cymhlethdod isel wedi'i ddatblygu ac yn cael ei roi ar waith. Mae datblygiad Canolfan Gofal wedi'i Gynllunio wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae'r datblygiad yn Ysbyty Llandudno bellach ar y gweill. Bydd y safle pwrpasol yn rhedeg am 50 wythnos y flwyddyn, gan ddileu'r risg o ganslo gofal wedi'i gynllunio sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth o ganlyniad i bwysau gofal brys ac argyfwng.<br>• Mae cynnydd wedi'i wneud ar draws ystod o ddangosyddion mewn perthynas ag amseroedd aros gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys:<br>    ○ Gostyngiad o 62% yn nifer y bobl sy'n aros dros 156 wythnos i gael eu hapwyntiad cyntaf neu ddechrau triniaeth (Tachwedd 2022 – Tachwedd 2023)<br>    ○ Gostyngiad o 45% yn nifer y bobl sy'n aros 52 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf (Tachwedd 2022 – Tachwedd 2023)<br>    ○ Gostyngiad o 37% yn nifer y bobl sy'n aros 104 wythnos o gymharu â'n sefyllfa y llynedd (Tachwedd 2022 – Tachwedd 2023)<br><br>• Gwasanaethau Fasgwlaidd: Yn dilyn eu hadolygiad, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru isgyfeirio'r gwasanaeth o fod yn 'Wasanaeth sy'n achosi Pryder'. Mae dwy elfen arall o adolygu yn y broses ar hyn o bryd. Y cyntaf o'r rhain yw adolygiad gan y rhwydwaith Cenedlaethol sy'n adrodd canlyniadau cadarnhaol; nid yw'r ail wedi adrodd eto. Bydd archwiliad llawn o'r gwasanaeth fasgwlaidd presennol yn cael ei gynnal yn seiliedig ar yr holl adolygiadau a gynhaliwyd dros y 9 mis diwethaf.<br>• Dermatoleg: Gwasanaeth wedi'i herio'n sylweddol o ganlyniad i fylchau yn y gweithlu, fodd bynnag mae cynllun i ddatrys problemau uniongyrchol yn cael ei roi ar waith a dechreuwyd modelu gwasanaeth ar gyfer ateb cynaliadwy. Mae dull gwasanaeth teledermosgopi newydd wedi'i gymeradwyo a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. |

- Wroleg: Mae'r gwasanaeth hwn dan bwysau oherwydd heriau gweithlu a materion cyfluniad gwasanaeth. Derbyniwyd adolygiad GIRFT ac Adolygiad y Coleg Brenhinol ac mae cynllun ar gyfer y tymor byr yn ei le. Bydd angen cynllunio gwasanaethau mwy hirdymor ar gyfer yr arbenigedd hwn, yn unol â llawer o rai eraill.
- Iechyd Meddwl: Ymgymerwyd â sawl elfen allweddol o'r gwaith gan gynnwys:
    - Adolygiadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion Mewnol: Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o ddiogelwch cleifion mewnol yn ystod gwanwyn 2023 a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith o ganlyniad. Mae adolygiad dilynol wedi'i gynnal i arsylwi a dangos tystiolaeth lle mae gwelliannau wedi'u gwneud a'u cynnal. Yn ogystal, gofynnwyd am farn a phrofiad y rhai nad oeddent yn cael eu cynrychioli yn yr adolygiad cyntaf, e.e., staff wardiau, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn ogystal â gofyn i’r rhai a gymerodd ran o’r blaen am eu canfyddiadau o gynnydd neu feysydd sy’n peri pryder. Disgwylir yr adroddiad ym mis Mawrth.
    - ‘Adolygiad o Adolygiadau’: Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi edrych ar sawl adolygiad yn dyddio’n ôl rhyw 10 mlynedd i ddeall lle mae cynnydd wedi’i wneud. Mae’r adroddiad terfynol ar ei ffordd.
    - Mae perfformiad mewn perthynas â mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn parhau i ddangos sefyllfa gadarnhaol ar y cyfan. Mae gwasanaethau newydd fel y ‘111 Pwyso 2’ bellach yn cael eu darparu 24 awr y dydd, gan ddarparu mynediad ar unwaith at gymorth iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio'n dda ac mae bellach yn elfen graidd o'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth.
- Gofal Brys ac Mewn Argyfwng: Mae'r maes hwn yn parhau i fod yn bryder sylweddol. Mae dros 360 o bobl ar unrhyw un adeg yn profi oedi yn yr ysbyty o ganlyniad i anawsterau wrth sicrhau eu cam nesaf o ofal. Mae hyn yn cael effaith ddofn ar y ffordd y mae pobl sydd angen gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael eu gweld a'u derbyn i'r ysbyty mewn modd amserol. Mae hwn yn amlwg yn fater ehangach na Gogledd Cymru a bydd angen gweithredu cenedlaethol a lleol i sicrhau gwelliannau. Mae gwaith gwella yn yr Adran Achosion Brys yn ogystal ag ymhellach i mewn i'r ysbyty yn cael ei wneud gyda datblygiad pellach Gofal Brys yr Un Diwrnod er enghraifft. Mewn perthynas ag oedi 4 awr wrth drosglwyddo ambiwlansys, mae rhywfaint o welliant wedi'i gyflawni, ond mae angen gwelliant pellach o hyd. Neilltuodd y Bwrdd sesiwn yn ei raglen ddatblygu i ofal brys a mewn argyfwng ac amlinellwyd llwybr cleifion yn yr ysbyty yn Ysbyty Gwynedd ym mis Hydref, cyn ystyried y Cynllun Gwydnwch Gaeaf yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Mae'n werth nodi, er gwaethaf y pwysau a'r heriau, fod Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd wedi’i osod ar y brig ymysg meddygon iau fel y safle hyfforddi gorau, yn ôl arolwg GMC DU.

**Canlyniad 5: Sefydliad sy'n dysgu ac yn hunanwella**

Mae'n hanfodol wrth adeiladu sefydliad effeithiol sy'n gallu rhoi newid hirdymor ar waith, bod ffocws ar ddysgu a mecanweithiau sy'n cefnogi gwelliant yn cael eu gwreiddio. Mae'r canlyniad hwn felly'n tynnu i mewn elfennau a fydd yn galluogi'r sefydliad i nodi materion a meysydd i'w gwella yn gynt a meithrin gallu a gallu i wneud newidiadau heb ddibynnu'n drwm ar gymorth allanol.

| Canlyniad | Cynnydd |
|---|---|
| **5) Sefydliad sy'n dysgu ac yn hunanwella** | • Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddatblygu achos busnes i fuddsoddi mewn Cofnod Electronig Gofal Iechyd ar gyfer Gogledd Cymru. Byddai hyn yn galluogi systemau gofal i gael eu trawsnewid, gan gefnogi staff i ddarparu gofal mwy diogel a mwy effeithiol. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru mewn perthynas â symud yr achos hwn ymlaen i'r cam nesaf.<br>• Mae cynnig Rhaglen Iechyd Cyhoeddus ar Ofal Iechyd sy'n canolbwyntio ar ddiabetes (atal a gofal) wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo.<br>• Mae'r gwaith o ddatblygu System Rheoli Ansawdd ar gyfer y sefydliad yn mynd rhagddo. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda Sefydliad Gwella Gofal Iechyd a Gwelliant Cymru i ddatblygu dealltwriaeth gref o systemau ansawdd mewn gofal iechyd. Rhagwelir y bydd y Bwrdd yn ystyried drafft System Rheoli Ansawdd (Fframwaith) ym mis Mai 2024, gan brofi, adeiladu a mireinio'r system wedi hynny. Mae gwaith dysgu gan sefydliadau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol yn cefnogi'r gwaith hwn.<br>• Mae Fframwaith Sefydliad sy'n Dysgu yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r diwylliant, y system a'r broses ddysgu.<br>• Mae Rhaglen Ymchwilio a Dysgu wedi'i sefydlu i adolygu'n ôl-weithredol safon ac effeithiolrwydd ymchwiliadau sy'n ymwneud â gofal clinigol o fewn y sefydliad. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar ansawdd cynllunio gweithredu a'r dystiolaeth bod dysgu wedi'i fewnosod wedi digwydd. |

### Edrych ymlaen

Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n datblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 3 blynedd a bydd hwn yn integreiddio'r gwaith a nodwyd yn flaenorol o dan 'Fesurau Arbennig' (sydd bellach wedi'i nodi fel ymyriad Lefel 5 o dan y Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth ddiwygiedig). Mae pum amcan allweddol yn cael eu cynnig o fewn y Cynllun wrth symud ymlaen a fydd yn adeiladu ar y gwaith a wnaed i sefydlogi'r sefydliad dros y 9 mis diwethaf ac i ehangu'r ffocws.

1) Adeiladu sefydliad effeithiol
2) Datblygu strategaeth a newid parhaol
3) Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad tosturiol
4) Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad
5) Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer Dysgu

Mae Llywodraeth Cymru yn mireinio'r dull o ymdrin â meini prawf llwyddiant, ond mae'r sefydliad ei hun yn gosod nodau a chanlyniadau clir a fydd yn dangos cynnydd yn dryloyw.

### Crynodeb

Mae cynnydd pwysig wedi'i wneud dros y 9 mis o weithredu'r Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig. Mae'r Bwrdd bellach yn fwy sefydlog ac yn galluogi arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach. Mae cyfeiriad clir ac mae diwylliant cadarnhaol a chefnogol yn tyfu. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o ran galluogi sefydliad gwirioneddol effeithiol a all fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r heriau y mae'r GIG a'r sector cyhoeddus ehangach yn eu hwynebu. Fodd bynnag, mae gan y bwrdd iechyd ddull clir ar gyfer cam nesaf y gwaith sydd ei angen i barhau â'r gwelliannau a wnaed eisoes.

## 2) Materion yn ymwneud â'r prosesau sy'n gysylltiedig â chomisiynu adroddiad EY a arweiniodd at gost uwch na'r angen i'r Bwrdd.

Comisiynwyd gwaith sylweddol gan ddechrau ym mis Mehefin 2023 gan y Prif Weithredwr (dros dro ar y pryd) o ganlyniad i bryderon a godwyd. I grynhoi roedd y rhain yn cynnwys:

a. **Adolygu caffael a rheoli contractau EY. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn annibynnol gan y Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd (Archwiliad Mewnol)**.
   Ceisir yr adolygiad lefel uchel, yn seiliedig ar adolygiad trylwyr o ddogfennaeth:
   i. Sefydlu'r broses gaffael a ddilynwyd gan y bwrdd iechyd i ymgysylltu ag EY (Ernst and Young) i gynnal yr adolygiad, a nodi'r trefniadau rheoli contract sydd ar waith i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r adolygiad.
   ii. Yn unol â hynny, canolbwyntiodd y cwmpas ar:
      1. Caffael – adolygu cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd; Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a phrosesau caffael.
      2. Rheoli contractau – adolygu'r trefniadau rheoli contractau sydd ar waith.

**b. Prosesau Rheoli AD ac Adolygiad Ymarfer** yn edrych yn bennaf ar driniaeth staff cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfweliadau EY ac adolygiad o brosesau ac arferion AD mewn perthynas â hyn o fis Rhagfyr 2022 hyd at fis Hydref 2023.

**c. Tordyletswydd Llywodraethu Gwybodaeth ac Adolygiad Llywodraethu Gwybodaeth/Cofnodion Corfforaethol,** a oedd yn cynnwys:

i. Archwiliad cyflym o'r amgylchiadau ynghylch datgelu adroddiad EY heb awdurdod.
ii. Adolygiad annibynnol o Lywodraethu Gwybodaeth gyda ffocws penodol ar Reoli Cofnodion Corfforaethol.

Mewn perthynas â'r adolygiad lefel uchel o gaffael a rheoli contract yr adroddiad EY, roedd y prif ganfyddiadau a gynghorwyd i'r Prif Weithredwr yn cynnwys:

1. Comisiynwyd yr adolygiad annibynnol (EY) gan y Pwyllgor Archwilio. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw swyddogion Gweithredol yn ymwneud â chaffael y cyflenwr. Roedd pryderon wedi'u codi gan y CEO (ar y pryd) ynghylch llywodraethu'r contract, yn benodol ei fod yn benagored yn ogystal â'r cymeradwyaeth sydd ei angen yn unol â'r Cynllun Dirprwyo.

2. Nid yw'n ymddangos bod y prosesau caffael priodol wedi'u dilyn, gyda dyfarniad uniongyrchol i'r cyflenwr yn cael ei wneud, heb dystiolaeth o'r broses briodol i bob golwg.

3. Mae cymeradwyo contract ar gyfer ymgynghoriaeth allanol yn uwch na'r terfyn dirprwyedig (£500,000) gan y Prif Weithredwr ac yn fater a gadwyd yn ôl i'r Bwrdd llawn. Ni welwyd tystiolaeth o unrhyw gofnod o benderfyniad y Bwrdd na Chamau Gweithredu Cadeiryddion ar gyfer dyfarnu'r contract. Gwerth archeb brynu'r contract oedd £922,110.00.

4. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth gan EY wedi'i gomisiynu ym mis Medi 2022, gydag ymholiadau wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo'n ôl-weithredol ym mis Chwefror 2023.

5. O ran rheoli contractau, nid oedd y llythyr cyflogi a'r datganiad gwaith yn cynnwys cyfanswm y ffi a oedd yn daladwy. Roedd yn ymddangos bod 311 o oriau wedi'u cyllidebu, ond defnyddiwyd 671 awr hyd at Hydref 2022, gyda chostau pellach yn dod i'r amlwg ym mis Tachwedd 2022. Roedd sylwadau EY yn ymwneud â hyn yn nodi bod y Pwyllgor wedi gofyn am ragor o waith.

6. Nododd y gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd hefyd faterion eraill gan gynnwys bod y Prif Weithredwr ar y pryd wedi gwneud sylwadau ar y Cylch Gorchwyl, ond ni allai gadarnhau a oedd y rhain wedi'u hystyried. Ni lofnodwyd llythyr ymgysylltu EY gan y Swyddog Atebol er bod rhai o'r disgwyliadau allweddol wedi'u cynnwys ym Memorandwm y Swyddog Atebol.

7. Er bod EY wedi anfon adroddiad drafft at bartïon allweddol, maent yn nodi y gofynnwyd iddynt gwblhau'r adroddiad cyn derbyn sylwadau gan yr holl bartïon.

8. Cafwyd cyngor cyfreithiol allanol i ymateb i bryderon a godwyd gan uwch swyddog bwrdd iechyd; nid oedd caffael y cyngor hwnnw yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog. Comisiynwyd y gwaith ym mis Hydref 2022 a chwblhawyd y gorchymyn i hwyluso taliad yn ôl-weithredol ym mis Chwefror 2023. Gwerth yr archeb oedd £30,000.

Cymerwyd camau sylweddol o ganlyniad i'r canfyddiadau sy'n ymwneud â chaffael yr Adolygiad. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi ystyriaeth ehangach i arferion caffael a chontractio, adolygu'r Cynllun Dirprwyo, y Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a hyfforddi dros 400 o uwch staff mewn arferion caffael effeithiol.

## 3) Gwaith dilynol ar faterion sy’n codi o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sydd ar ddod ar Effeithiolrwydd Bwrdd BIPBC, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2024.

Mae Archwilio Cymru **bellach wedi cyhoeddi** eu hadroddiad dilynol ar Effeithiolrwydd y Bwrdd, Adroddiad Dilynol ar Effeithiolrwydd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Audit Wales, sy’n nodi bod y bwrdd iechyd bellach yn fwy sefydlog gydag arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach yn amlwg. Mae’r Bwrdd Iechyd yn symud i’r cyfeiriad cywir, gan ganolbwyntio ar ddatblygu diwylliant cadarnhaol a chefnogol ac ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder yn y bwrdd iechyd ymhlith y cyhoedd, staff a phartneriaid. Mae’r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr heriau y bydd angen i’r bwrdd iechyd fynd i’r afael â nhw wrth symud ymlaen.

Mae ymateb wedi'i ddatblygu gan y bwrdd iechyd a bydd hwn yn arwain y gwaith gwella sydd ar y gweill ac fe'i nodir isod.

**Ymateb BIPBC i Adolygiad Dilynol Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd y Bwrdd**

| | Casgliad | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Erys heriau sylweddol a bydd angen arweinyddiaeth egnïol, wydn a dewr i fynd i'r afael â hwy. Mae angen parhau ar unwaith, a chwblhau’r gwaith sydd wedi’i anelu at sefydlogi’r bwrdd ac uwch arweinyddiaeth ehangach y sefydliad. Mae hynny’n cynnwys cyrraedd sefyllfa lle mae gan y bwrdd gyflenwad llawn o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol parhaol, a gyda Chadeirydd parhaol yn ei le. Yn gysylltiedig â hyn mae’r angen dybryd i ailsefydlu strwythur pwyllgorau o dan y bwrdd sy’n darparu’r oruchwyliaeth, y craffu a’r cymorth angenrheidiol ar draws pob agwedd ar fusnes y sefydliad. | A) Mae recriwtio aelodau annibynnol ar y gweill. Rhagwelir y bydd y rolau’n llawn erbyn mis Mawrth 2024.<br>B) Mae Rhaglen Recriwtio Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cychwyn o ddifrif yn ystod Chwarter 1 2024.<br>C) Bydd strwythur y Pwyllgorau wedi'i sefydlu'n llawn yn ystod Ch4 2023/24. Mae Pwyllgorau newydd wedi cwblhau eu cyfarfodydd sefydlu yn ystod Ionawr 2024, ac mae sesiynau datblygu yn cael eu cynllunio ar gyfer Chwefror a Mawrth 2024 er mwyn cynorthwyo Pwyllgorau cwbl weithredol ar gyfer 2024/25.<br>D) Bydd ffocws ar gryfhau’r dull adrodd (gan gynnwys safonau adroddiadau) yn cael ei gynnal yn Ch1 2024/25 |
| 2. | Dylid defnyddio’r llu o ddatgeliadau a dderbyniwyd tua diwedd 2022 i lywio’r rhaglen datblygu bwrdd y bydd angen i’r bwrdd newydd ei rhoi ar waith. Yn benodol, dylai lywio’r gwaith sy’n mynd rhagddo ar ddiwylliant sefydliadol ac arweinyddiaeth dosturiol, a sicrhau bod hyn yn dechrau gyda’r “esiampl gywir o’r brig”. | A) Bydd y Bwrdd yn cymryd rhan weithredol yn natblygiad Arweinyddiaeth Tosturiol yn dilyn Diwrnod y Bwrdd gyda Michael West ym mis Rhagfyr 2023.<br>B) Penderfynir ar ddull ‘Datblygu Tîm’ y Bwrdd yn ystod Chwarter 1 2024/25 wrth i aelodau newydd y Bwrdd ymuno.<br>C) Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cymryd rolau arwain personol wrth lywio datblygiad sefydliadol trwy arwain y Pwyllgor Pobl a Diwylliant (Cadeirydd) a'r Grŵp Llywio Datblygu Sefydliadol (CEO). |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | Un o flaenoriaethau allweddol y Prif Weithredwr newydd fydd adeiladu Tîm Gweithredol sefydlog, cydlynol, â'r sgiliau priodol a all roi'r arweinyddiaeth weithredol sydd ei hangen ar y sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys dod o hyd i'r gymysgedd gywir o bortffolios Cyfarwyddwyr Gweithredol, lleihau'r ddibyniaeth ar drefniadau dros dro ar gyfer uwch rolau arwain, a meithrin gallu a chapasiti arweinyddiaeth ar gyfer trefniadau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd. Rhaid i'r Tîm Gweithredol hefyd fod wedi'i gysylltu'n briodol â'r strwythurau arweinyddiaeth sy'n eistedd oddi tano, rhywbeth y bydd angen ei gefnogi drwy sicrhau bod model gweithredol y Bwrdd Iechyd yn addas i'r diben. | A) Mae'r Adolygiad o'r Portffolio Gweithredol, yn ogystal â ffynonellau tystiolaeth eraill, wedi darparu mewnwelediad sy'n llywio ffurf a swyddogaeth y Tîm Gweithredol. Bydd Chwarter 4 yn gweld dull diwygiedig yn cael ei gynnig ac yn dilyn ymgysylltu ac unrhyw addasiadau angenrheidiol, yn cael ei roi ar waith yn weithredol gan gynnwys recriwtio i swyddi gwag.<br>B) Mae rôl Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi'i recriwtio a bydd y dyddiad cychwyn yn debygol o fod cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Dylai'r penodiad hwn ddarparu'r arweinyddiaeth a'r gallu sydd eu hangen i gryfhau llywodraethu corfforaethol ar draws y sefydliad.<br>C) Mae adolygiad o'r Strwythurau Model Gweithredu yn rhan o'r Cynllun Ymateb Mesurau Arbennig, a fydd yn nodi lle mae angen eu haddasu. Bydd ffyrdd ehangach o weithio sy'n cysylltu'r Weithrediaeth ag arweinyddiaeth ehangach yn cael eu gwerthuso ymhellach fel rhan o'r gwaith hwn. |
| 4. | Wrth i'r bwrdd newydd geisio bwrw ymlaen â wynebu'r heriau hyn, bydd angen iddo gadw golwg glir ar y canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni. Rhaid i'r rhain gynnwys ailadeiladu hyder yn arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd o fewn y sefydliad, ac ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder yn y Bwrdd Iechyd ymhlith ei randdeiliaid allanol. | A) Mae dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wedi'i osod yn y Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig ac wrth i'r cynllunio ar gyfer 2024/25 a'r tu hwnt fynd rhagddo, bydd canlyniadau'n elfen allweddol o osod amcanion, monitro perfformiad a mecanweithiau sicrwydd.<br>B) Yn ogystal ag arolygon staff mewnol sy'n mesur hyder mewn arweinyddiaeth a rheolaeth, rhoddir ystyriaeth i fecanweithiau i gael adborth allanol gan randdeiliaid cyn 2024/25. |
| 5. | Yn y tymor byr, mae'n debygol y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddefnyddio lefelau priodol o gyngor ac arbenigedd allanol wrth iddo ymateb i'r heriau hyn a gofynion y fframwaith mesurau arbennig. Fodd bynnag, rhaid iddo hefyd geisio cael | A) Fel rhan o greu'r Cynllun Datblygu Sefydliadol, cynhelir asesiad capasiti a gallu, i adlewyrchu lle bydd angen arbenigedd penodol. Bydd gweithredu'r Cynllun Datblygu Sefydliadol yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun 3 Blynedd 2024/27 (IMTP). |

| | | |
|---|---|---|
| | ei hun i sefyllfa lle mae ganddo'r capasiti a'r gallu mewnol angenrheidiol i gynnal gwelliant ac osgoi'r angen i edrych i'r tu allan yn barhaus am gymorth i gyflawni'r gwelliannau sy'n angenrheidiol. | |